

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu
ac Archwilio

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2021

Rhif Union: 01824706204

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO, DYDD MERCHER, 28 GORFFENNAF 2021 am 9.30 am yn TRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021 (copi'n amgaeedig).

5 DATGANIAD DRAFFT O GYFRIFON 2020/21 (Tudalennau 15 - 20)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm) i ddarparu trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon drafft 2019/20 a'r broses sy'n sail iddo.

6 RHEOLI TRYSORFA FLYNYDDOL (Tudalennau 21 - 52)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm) ar y diweddariad blynyddol ar Reoli'r Trysorlys a Rheoli'r Trysorlys ynghylch gweithgaredd buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2020/21. Mae hefyd yn darparu manylion am yr hinsawdd economaidd yn ystod yr amser hwnnw ac yn dangos sut y cydymffurfiodd y Cyngor â'i Ddangosyddion Darbodus, a manylion gweithgareddau TM y Cyngor yn ystod 2021/22 hyd yma.

7 YMHOLIADAU ARCHWILIO 2020/21 (Tudalennau 53 - 86)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi'n amgaeedig) sydd yn cyflwyno'r Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

8 STRATEGAETH AR GYFER ATAL A DATGELU TWYLL, LLYGREDD A LLWGRWOBRWYO A'R CYNLLUN YMATEB I DWYLL (Tudalennau 87 - 124)

Derbyn adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi'n amgaeedig) yn gosod ymrwymiad y Cyngor i atal, datgelu a rhwystro twyll a llygredd.

9 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 125 - 150)

Ystyried adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi wedi'i amgáu) yn rhoi gwybod i aelodau am gynnydd Archwilio Mewnol.

10 CAMAU DILYNOL ARCHWILIO MEWNOL – RHEOLI PROSIECT ADEILADAU'R FRENHINES (Tudalennau 151 - 162)

Derbyn diweddariad (copi'n amgaeedig) am gynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu oedd yn cyd-fynd ag adroddiad Archwilio Mewnol Rheoli Prosiect Adeiladau'r Frenhines, a gyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Ionawr 2021.

11 CAMAU DILYNOL ARCHWILIO MEWNOL RHEOLI CONTRACTAU (Tudalennau 163 - 178)

Derbyn adroddiad diweddar (copi'n amgaeedig) am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Contractau.

12 ADRODDIAD BLYNYDDOL UWCH-BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (Tudalennau 179 - 186)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi'n amgaeedig) sy'n manylu ar achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data a chwynion yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (Tudalennau 187 - 190)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi'n amgaaedig).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Tony Flynn
Martyn Holland

Barry Mellor
Rhys Thomas
Joe Welch

Aelod Lleyg

Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher, 9 Mehefin 2021 am 9:30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Martyn Holland (Is-Gadeirydd), Barry Mellor (Cadeirydd), Rhys Thomas a Joe Welch.

Aelod Lleyg - Paul Whitham

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraataidd - Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo (Swyddog Adran 151) (SG), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LJ), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Uwch-archwilydd (LH), Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal (M), Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (NK), Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IMG) a gweinyddwyr y Pwyllgor (SJ, KJ a RTJ).

Roedd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru, Matthew Edwards a David Wilson hefyd yn bresennol.

1 YMDDIHEURIADAU

Hysbysodd Y Cynghorydd Barry Mellor aelodau ei fod wedi derbyn neges y byddai'r Cynghorydd Joe Welch a'r Cynghorydd Tony Flynn yn cyrraedd y cyfarfod ychydig yn hwyr.

2 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Aelod i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cafodd Y Cynghorydd Barry Mellor ei enwebu gan Y Cynghorydd Ellie Chard, gyda'r Cynghorydd Martyn Holland yn eilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill felly;

PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd Barry Mellor gael ei benodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Aelod i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Cafodd Y Cynghorydd Martyn Holland ei enwebu

gan Aelod Lleyg Paul Whitman, gyda'r Cynghorydd Ellie Chard yn eilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill felly;

PENDERFYNWYD y dylai'r Cynghorydd Martyn Holland gael ei benodi fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Croesawodd y Cadeirydd Y Cynghorydd Ellie Chard a'r Cynghorydd Rhys Thomas fel aelodau newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

5 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021.

Materion cywirdeb - Dim
Materion sy'n codi - Dim

PENDERFYNWYD yn amodol â'r uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel cofnod cywir.

7 AROLYGIAD RIPA 2021

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RhGC) adroddiad o archwiliad RIPA 2021 i'r aelodau (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol).

Cadarnhawyd oddeutu bob tair blynedd bod Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn arolygu'r Cyngor o bell o ran ei weithgareddau dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000.

Hysbyswyd yr Aelodau fod yr archwiliad wedi cael ei gynnal gan un o Arolygwyr y Comisiynydd, Graham Wright ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021. Eglurwyd fod dull ymarferol a phragmatig wedi bod i'r archwiliad. Roedd y protocol yn ymddangos fel ei fod yn dilyn ymarfer bwrdd gwaith gydag archwiliad o bell a phe bai angen byddai archwiliad mewn person yn cael ei drefnu. Cadarnhaodd y darganfyddiadau nad oedd angen archwiliad mewn person.

Roedd yr archwiliad yn ymarfer defnyddiol i swyddogion, gan fod yr archwiliad yn craffu'r polisi cuddwyllo, deunyddiau hyfforddiant a chofnodion canolog yr awdurdod ac yn arddangos cydymffurfiad gan yr awdurdod.

Clywodd yr aelodau bod y cynllun gweithredu o'r archwiliad blaenorol wedi cael ei gwblhau yn llawn.

Cadarnhawyd nad oedd na unrhyw geisiadau RIPA wedi eu derbyn dros y tair blynedd diwethaf. Dywedodd y RhGC nad oedd hynny'n anghyffredin gan fod

dulliau eraill o gasglu tystiolaeth. Roedd yr awdurdod wedi ufuddhau i ddefnyddio'r dulliau eraill o gasglu tystiolaeth cyn cyflwyno cais RIPA.

Roedd ymwybyddiaeth o'r ddogfen polisi a gweithdrefn yn hanfodol. Roedd hyfforddiant yn anhepgor i addysgu staff ac amlygwyd hynny fel rhan o'r archwiliad. Roedd yr arolygwr wedi gweld deunyddiau hyfforddiant ac yn falch gyda'i ddarganfyddiadau gan gynnig diwygiadau i wella'r deunyddiau hyfforddiant yn barod ar gyfer hyfforddiant wedi trefnu yn yr hydref. Cadarnhawyd bod digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi ar gyfer swyddogion ymchwilio a swyddogion awdurdodi.

O fewn yr adroddiad cyfeiriodd yr aelodau at Wasanaethau Cymdeithasol gan dalu sylw penodol i wasanaethau plant. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gynnal dealltwriaeth am y gweithdrefnau o fewn Sir Ddinbych. Roedd cyfeiriad at ddata wedi'i nodi yn yr adroddiad. Yn arbennig, cadw gafael ar ddata, tu hwnt i'w ddefnydd yn dilyn archwiliad. Sefydlwyd gweithgor RIPA oedd yn cynnwys rheolwyr canol, rheolwyr gweithredol, y swyddog monitro a'r RhGC i weithio gyda TGCh i sefydlu cofnod canolog o wybodaeth i gyflwyno'r amserlenni statudol. Cadarnhawyd fod uno diweddar wedi bod rhwng yr adran Gynllunio a Gwasanaeth Cyhoeddus o ran TCC.

Dyma'r Cadeirydd yn diolch i'r RhGC am y wybodaeth fanwl ynghylch yr archwiliad. Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod y drosedd o feddiannu cartrefi pobl ddi-amddiffyn i werthu cyffuriau (cuckooing) yn achos i'r heddlu. Byddai'r awdurdod yn cynorthwyo pe bai angen.
- Yn y gorffennol mae gweithgaredd RIPA wedi cael ei ddefnyddio i archwilio deiliadaeth sengl. Nid yw'r gweithgaredd wedi cael ei ddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf. Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn eu lle i archwilio unrhyw baru data. Dim ond fel y cam olaf y byddai'r broses RIPA yn cael ei ddefnyddio i archwilio unrhyw dwyll posib.
- Cadarnhaodd y RhGC y byddai unrhyw bryderon am les plant yn cael ei archwilio yn unol â'r heddlu. Byddai'r awdurdod yn cynorthwyo gydag unrhyw archwiliad pe bai angen.

Dyma'r Cadeirydd yn diolch i'r RhGC am yr ymatebion i gwestiynau'r aelodau. Felly,

PENDERFYNWYD fod yr aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r adroddiad archwiliad wedi'i atodi fel atodiad 1.

8 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2020-2021

Arweiniodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol a'r Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr aelodau trwy'r adolygiad perfformiad blynyddol (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol). Atgoffwyd yr aelodau mai diben yr adolygiad oedd darparu golwg cyffredinol o'r cynnydd ar swyddogaethau statudol allweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y bwriad a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ôl gofyniad Mesur Llywodraeth Leol. Hysbyswyd aelodau fod y Mesur Llywodraeth Leol yn cael ei ddileu yn fuan oherwydd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Cadarnhawyd mai bwriad y broses arferol o adolygiadau Perfformiad Blynyddol oedd cyflwyno adroddiad i Graffu Perfformiad, Cabinet ac i gael ei

gadarnhau gan y Cyngor Llawn. O fewn y Ddeddf newydd mae darpariaeth orfodol ar gyfer hunanasesiad o berfformiad wedi cael ei gynnwys. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw monitro a goruchwyllo hunanasesiad. Cadarnhaodd y RhTCS bod yr hunanasesiad ddim yn ofyniad tan y flwyddyn nesaf. Fel prawf fe gynigodd y swyddogion fersiwn drafft o hunanasesiad eleni. Bwriad yr asesiad drafft oedd trafod y cynnwys, ei ffocws, ei rwymedigaethau statudol a gofynnwyd am sylwadau a safbwyntiau aelodau.

Atgoffwyd aelodau fod y ATCSPH wedi mynychu cyfarfod Archwilio a Llywodraethu i drafod gofynion yr Hunanasesiad o dan y Ddeddf. Mae'r hunanasesiad yn gofyn i swyddogion adolygu nifer o ddarnau o dystiolaeth yn cynnwys yr adolygiad perfformiad blynyddol, unrhyw adroddiadau rheoleiddio allanol a'r datganiad Llywodraethu blynyddol. Dywedodd y RhTCS wrth yr aelodau unwaith y bydd yr ardaloedd llywodraethu wedi cael eu hadolygu byddai cynllun gweithredu ar gyfer gwella corfforaethol yn cael ei ffurfio. Byddai hyn yn ffurfio sail yr hunanasesiad. Cadarnhawyd fod monitro'r perfformiad yn parhau i gael ei gynnwys ym mhwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cabinet. Rôl y Pwyllgor Craffu a Llywodraethu byddai derbyn yr adroddiad yn flynyddol i'w drafod a'i gadarnhau.

Darparodd yr ATCSPH gadarnhad i'r aelodau eu bod wedi derbyn cyngor annibynnol ar y ffordd orau i adrodd i aelodau. Cytunwyd i gynnwys saith adran llywodraethu o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol o dan y teitl lechyd Corfforaethol i ffurfio un adroddiad.

Dyma'r aelodau yn diolch i'r RhTCS a'r ATCSPH am yr adroddiad manwl a'r eglurhad clir o'r hunanasesiad. Amlygwyd fod llawer o waith wedi cael ei wneud i greu'r hunanasesiad drafft. Yn dilyn y drafodaeth, ymhelaethodd y swyddogion ar y materion canlynol:

- Roedd y sicrwydd wedi'i nodi yn yr adroddiad wedi cael ei ddarparu gan archwilydd annibynnol, wedi'i gomisiynu gan CLILC.
- Byddai ymrwymiad yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd. Byddai dull cynhwysol gan aelodau ac Aelodau Lleyg yn cael ei fabwysiadu. Cadarnhaodd y RhTCS fod y cyfnod ymchwil wedi dechrau a'r cyfnod ymrwymo wedi'i lansio. Sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer y cyhoedd gyda sesiynau ymrwymo yn cael eu trefnu i aelodau a staff Adroddwyd ar y broses i'r TAS a'r Cabinet i'w fonitro.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a ***PHENDERFYNWYD*** bod yr aelodau yn adolygu a chymeradwyo'r adroddiad drafft, a'i fod wedi ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i ganlyniadau neu gamau gweithredu y mae'r cyngor yn bwriadu eu gwneud.

9 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020-21

Arweiniodd y Prif Archwilydd Mewnol yr aelodau trwy'r adroddiad ac atodiad 1 (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol). Atgoffwyd aelodau fod yr adroddiad yn casglu gwybodaeth ar weithgaredd archwilio mewnol, adroddiadau rheoleiddiwr allanol a hunanasesiad mewnol gan y gweithgor Llywodraethu Corfforaethol, oedd yn adolygu trefniadau llywodraethu'r cyngor.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB). Eglurwyd fod y DLIB wedi ffurfio rhan o'r Datganiad o Gyfrifon. Cafodd ei gyflwyno i'r aelodau ar wahân er mwyn i aelodau allu trafod ac adolygu'r DLIB yn unigol.

Roedd yr asesiad DLIB yn nodi effaith y pandemig. Un effaith allweddol a nodwyd oedd yr anallu i gynnal cyfarfodydd pwyllgor ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd rheoliadau cadw pellter cymdeithasol. Roedd yr effaith o adael yr Undeb Ewropeaidd hefyd wedi'i gynnwys yn yr DLIB.

Dywedodd y PAM wrth yr aelodau fod gofyniad newydd ar gyfer cynnwys datganiad o gydymffurfiaeth gyda chod rheolaeth ariannol wedi cael ei gynnwys.

Pwysleisiwyd fod pandemig Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar y Cyngor a'r preswylwyr, a bod angen addasu'r ffordd yr oeddem yn darparu gwasanaethau i breswylwyr.

Atgoffwyd aelodau o achos llywodraethu sylweddol a gafodd ei godi yng nghyfarfodydd pwyllgor DLIB y llynedd a ddaeth i'r canlyniad na chaniatawyd cynnal cyfarfodydd pwyllgor. Mae diweddariad wedi cael ei gynnwys yn y DLIB hwn gan fod cyfarfodydd wedi cael dod yn ôl ar-lein. Bellach roedd pob cyfarfod y Cyngor a Chraffu a Llywodraethu yn cael eu gweddarlledu. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod cyfarfodydd zoom yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu o Hydref 2020.

Roedd adolygiad o effeithiolrwydd yn adran allweddol o'r DLIB. Roedd y DLIB hwn yn ymgorffori'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Pwysleisiodd y PAM bwysigrwydd y camau Gwelliant sy'n codi o DLIB 2020-21 gan ei fod yn dangos tryloywder ac yn arddangos lle i wella ac i fynd i'r afael â hynny eleni.

Cadarnhaodd Matthew Edwards, Archwilio Cymru wrth yr aelodau y byddai Archwilio Cymru yn adolygu'r DLIB fel rhan o'r datganiadau ariannol. Bydd darganfyddiadau'r adolygiad yn ffurfio sail adroddiad Archwilio Cymru o'r cyfrifon. Bydd y darganfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r pwyllgor ym Medi 2021.

Felly,

PENDERFYNWYD *fod aelodau yn adolygu a chymeradwyo'r DLIB drafft ar gyfer 2020-21 (atodiad 1) ac y mae'n monitro'r cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu o DLIB 2019-20.*

10 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL 2020-21

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (PAM) yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol). Darparodd yr adroddiad safbwynt cyffredinol y PAM ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraeth, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn wnaeth hysbysu'r 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'.

Roedd gwaith digonol wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys archwiliadau mewn camau drafft er mwyn sicrhau bod sicrwydd yn cael ei ddarparu. Nodwyd fod y pandemig coronafeirws wedi tarfu ar gyflenwi'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21. Roedd wedi arwain ffocws arall i'r cynllun ar agweddau o brif flaenoriaeth

i'r cyngor a allai gael ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Archwilio Mewnol.

Cadarnhawyd ar wahân i'r cyfyngiadau wedi'u gorfodi oherwydd y pandemig, ni chafodd unrhyw gyfyngiadau neu amhariad ar waith yr archwilio mewnol ei nodi. Newid i weithio gartref wedi digwydd yn esmwyth ac effeithlon.

Mewn ymateb i bryderon a chwestiynau a godwyd gan aelodau fe gadarnhaodd y PAM fod archwilio hyblyg yn cynnwys cynllun a gytunwyd arno o'r hyn i gael ei archwilio a'r cynnydd yn cael ei adolygu mewn cyfnodau. Y gobaith yw byddai'n lleihau'r cyfanswm o amser ar gyfer archwilio i alluogi blaenoriaeth ar feysydd allweddol ar gyfer archwilio.

Hysbyswyd aelodau fod archwiliadau wedi'u gohirio neu ganslo yn cael eu hymgorffori yn y daenlen dadansoddi anghenion yr archwiliad. Mewnbwn gan nifer o ffynonellau fel Blaenoriaethau Corfforaethol a Chofrestr Risgiau Corfforaethol a Chofrestrau Risgiau Gwasanaeth yr awdurdod. Cafodd ei ddiweddarau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i asesu blaenoriaeth o waith i gael ei gwblhau.

Meddai'r PAM wrth yr aelodau fod y Fenter Twyll Cenedlaethol (NFI) ar baru data yn seiliedig ar wybodaeth y mae'r Cyngor wedi'i lwytho i fyny. Casglwyd y wybodaeth hon o etholiadau a threth y cyngor. Cyn 2018/19 roedd Civico wedi cydlynu system wahanol ar gyfer casglu data. Nid oes gor-ddefnydd wedi cael ei wneud o'r NFI. Mae mwy o ymdrech wedi bod i ganolbwyntio ar baru data. Mae diwygiad i filiau Treth y Cyngor i'r eiddo hynny wedi'i wneud i adennill rhan o'r arian.

Cadarnhaodd PAM fod yr arwydd ar gyfer cofrestru prosiect ar gyfer cartrefi gwag yn dod i fyny fel gwyrd. Cyfeirir at unrhyw bryderon pan fydd y gwaith asesu rheoli prosiectau wedi'i gwblhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r PAM am yr adroddiad a'r ymatebion manwl i bryderon yr aelodau.

Felly,

PENDERFYNWYD fod Adroddiad Blynyddol y Prif Archwilydd Mewnol a'r 'safbwynt' cyffredinol yn cael ei dderbyn a'r cynnwys yn cael ei nodi.

11 TALIADAU UNIONGYRCHOL I BLANT – ADRODDIAD DILYNOL AR YR ARCHWILIAD MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (PAM) yr adroddiad ar y cyd â'r Uwch Archwilydd (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol). Eglurwyd i'r pwyllgor fod adroddiad sicrwydd isel wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2020, a gofynnodd yr aelodau i adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno. Amlygwyd yn y cynllun gweithredu'r cadarnhad fod y raddfa sicrwydd wedi cael ei ail-asesu yn seiliedig ar y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae'r raddfa sicrwydd wedi cael ei ailasesu gyda graddfa ganolig. Mae camau dilynol pellach wedi'u trefnu ar gyfer Medi 2021 i asesu unrhyw gamau gweithredu heb eu casglu.

Darparodd yr uwch-archwilydd yr aelodau gyda gwybodaeth gefndir ar y taliadau uniongyrchol sy'n egwyddor allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i sicrhau fod unigolion yn cael mewnbwn ar y canlyniadau ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen. Allan o'r 14 camau gweithredu gwreiddiol a godwyd bod pob un ar wahân i 4 wedi'u cwblhau.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau fe ymhelaethodd y swyddogion a'r Aelod Arweiniol ar y canlynol:

- Cadarnhad fod galw am wybodaeth bellach gan Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan i ennill gwell dealltwriaeth o broses monitro Awdurdodau eraill yng Nghymru. Yn anffodus, ni chafwyd llawer o wybodaeth bellach ganddynt.
- Gellir derbyn y cyllid ar gyfer ystod o anghenion yn cynnwys cymorth personol, seibiant a darpariaeth meithrinfa. Cafodd pob plentyn neu deulu eu hasesu i werthuso'r lefel o gyllid a chymorth sydd ei angen.
- Roedd yr archwiliad a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer taliadau uniongyrchol i blant. Mae taliadau uniongyrchol yn ei gyfanrwydd dan fygythiad twyll. Mae gan Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i gefnogi unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol, i sicrhau eu bod nhw'n gallu ymrwymo'n ddigonol â CP a bod unigolion yn ymwybodol o gyfrifoldebau i reoli risgiau. Roedd yr Archwiliad yn mynd i'r afael â'r angen i reoli'r risgiau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion a'r Aelod Arweiniol am yr adroddiad manwl. Cytunodd yr aelodau ar Archwilio Mewnol i reoli'r camau gweithredu heb eu casglu ac ni wnaeth ddiweddariad pellach i'r pwyllgor.

PENDERFYNWYD y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (RhGD) Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w ystyried (eisoes wedi ei rannu).

Cytunwyd i ddiwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel a ganlyn:

- Dylid cynnwys adroddiad Archwilio Mewnol dilynol ar Adeiladau'r Frenhines ar raglen mis Gorffennaf.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan Archwilio Cymru i gynnwys adroddiad chwarterol gan Archwilio Cymru. Bwriad yr adroddiad oedd i ddarparu adroddiadau cenedlaethol i'r pwyllgor â'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynnydd wrth ddilyn y cynllun blynyddol. Awgrymodd y Swyddog Monitro y byddai o fudd i'r pwyllgor dderbyn adroddiad chwarterol.

Cytunodd yr aelodau i gynnwys adroddiad chwarterol â'r wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilio Cymru ar y RhGD. Penderfynwyd i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod a gaiff ei gynnal ym mis Medi 2021.

PENDERFYNWYD yn amodol ar gynnwys yr ychwanegiadau uchod, i nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:22am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y cyfarfod: 28 Gorffennaf 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Diweddariad am Ddatganiad o Gyfrifon Drafft 2020/21

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu diweddariad am gynnydd fersiwn ddrafft Datganiad Cyfrifon 2020/21 a'r broses sy'n sail iddo.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio. Y gobaith oedd y byddai'r cyfrifon drafft yn barod i'w cyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad yn egluro'r rhesymau pam nad yw hyn yn bosibl eleni a beth yw'r cynlluniau wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod y cyfrifon terfynol yn cael eu cymeradwyo gan y pwyllgor o fewn yr amserlenni rheoleiddiol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r diweddariad am gynnydd i gwblhau'r cyfrifon drafft.

3.2 Cytuno i ddiwygio rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor er mwyn ystyried fersiwn ddrafft Datganiad Cyfrifon yn y cyfarfod ar 22 Medi a derbyn fersiwn derfynol y Datganiad Cyfrifon ac adroddiad archwilio Archwilio Cymru yn y cyfarfod ar 24 Tachwedd.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwyir. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a

archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Yn yr un modd â'r llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau y gallai'r terfynau amser statudol i gwblhau'r cyfrifon Drafft ac wedi'u harchwilio gael eu hystyngiadau oherwydd effaith Covid, fel y gwelir yn y tabl isod. Penderfynodd CSDd yn fuan i gyhoeddi hysbysiad i ddweud na fyddem yn anelu at y dyddiad cau cynnar statudol, ond byddem yn cyrraedd y dyddiadau cau diwygiedig. Gwnaed y penderfyniad yma ar ôl ymgynghori gydag Archwilio Cymru ac wedi'i lywio gan eu hasesiad o'u gallu i gwblhau'r gwaith archwilio gofynnol. Y prif ffactor i CSDd wrth wneud y penderfyniad oedd ein bod yn gwybod y byddem angen llunio'r Cyfrifon Grŵp (sydd yn cynnwys cyfrifon Hamdden Sir Ddinbych Cyf) cyn i ni allu arwyddo'r cyfrifon drafft. Roeddem ni'n cydnabod y gallai hi fod yn flwyddyn heriol i Hamdden Sir Ddinbych Cyf a CSDd er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar amser.

Mae "Rheoliad 10(1) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Sir Ddinbych yn arwyddo ac yn dyddio'r datganiad cyfrifon, ac yn ardystio eu bod yn cynrychioli golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r datganiad yn gysylltiedig â hi ac o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau, mae rhaid i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2021.

Mae terfynau amser statudol 2020/21 i'w gweld yn y tabl isod ynghyd â'r terfynau amser estynedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd parhad y pandemig.

Eitem	Dyddiad Cau Statudol	Dyddiad Cau Estynedig
Datganiad Cyfrifon Drafft	31 Mai 2021	31 Awst 2021
Datganiad Cyfrifon wedi'u Harchwilio	31 Gorffennaf 2021	30 Tachwedd 2021

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi arwyddo ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 oherwydd effaith Covid-19 ar adnoddau staff a gwaith ychwanegol o gwblhau'r cyfrifon eleni, a bydd yn gweithio o fewn y terfynau amser estynedig."

Serch hynny, rydym yn dal i obeithio y gallwn gadw at derfynau amser y Pwyllgor a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn, sef Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mis Gorffennaf ar gyfer y cyfrifon drafft a chyfarfod mis Medi ar gyfer y cyfrifon a archwiliwyd. Bu'n rhaid adolygu'r sefyllfa yma dros yr wythnosau diweddar, fel y gwelir isod:

- Cwblhaodd CSDd y cyfrifon 'endid unigol' ganol mis Mehefin a chawsant eu hanfon at Archwilio Cymru ar ôl adolygiad mewnol ar 22 Mehefin er mwyn i'r gwaith archwilio ddechrau
- Fe wnaethom dderbyn copi heb ei arwyddo o gyfrifon Hamdden Sir Ddinbych Cyf. ar 14 Gorffennaf – er fe allai hyn fod yn amodol ar adolygiad cyn iddynt gael eu harwyddo gan y cwmni
- Roedd hi'n fwy cymhleth na'r disgwyl i lunio cyfrifon Hamdden Sir Ddinbych Cyf. ac fe gymerodd hi'n hirach na'r oedd y cwmni'n ei ddisgwyl i gael yr wybodaeth allanol (e.e. adroddiad prisiad pensiynau).
- Er bod ffigurau drafft Hamdden Sir Ddinbych ar gael yn gynt ac wedi'u rhannu gyda CSDd, nid oedd y rhain yn cynnwys ffigurau pwysig megis yr wybodaeth Pensiynau. Cytunwyd gydag Archwilio Cymru y dylem aros am y drafft wedi'i arwyddo cyn ceisio llunio'r Cyfrifon Grŵp.
- Rydym wedi ystyried y bydd angen tua phythefnos ar gyfer y gwaith i gydgrynhoi cyfrifon Hamdden Sir Ddinbych mewn i gyfrifon endid sengl - felly gobeithio y bydd Datganiad Cyfrifon drafft y Grŵp ar gael yn gynnar ym mis Awst a byddant yn bendant ar gael i'w cyflwyno yn y cyfarfod ym mis Medi.
- Ochr yn ochr â'r materion mewnol yma, rhannodd Archwilio Cymru bryderon am eu gallu i gyflawni dyddiad cau mis Medi er mwyn cwblhau'r archwiliad. Ar y cyd fe wnaethom gytuno y dylai'r set o gyfrifon wedi'u harchwilio gael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, er eu bod yn gobeithio cwblhau'r gwaith archwilio cyn hynny.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau y Cyngor sy'n sail i lunio'r cyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn gadarn. Er ei bod hi'n siomedig bod y dyddiad cau wedi llithro heibio eleni, mae hi'n bwysig nodi'r canlynol:

- Fe fydd y cyfrifon yn dal i gael ei harwyddo o fewn y dyddiadau cau rheoleiddiol diwygiedig.
- Mae hi hefyd yn braf bod y Datganiad Cyfrifon drafft endid sengl wedi cael eu paratoi o fewn y dyddiad cau gwreiddiol
- Mae llawer o waith wedi cael ei wneud gyda chyfrifon Hamdden Sir Ddinbych na fydd ei angen y flwyddyn nesaf gan mai dyma oedd eu blwyddyn lawn gyntaf o fasnachu. Byddwn yn gweithio gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf. dros yr hydref er mwyn cytuno ar amserlen gadarn ac y gellir ei chyflawni er mwyn cwblhau'r cyfrifon wedi'i gydgrynhoi y flwyddyn nesaf.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor, a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	28 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol/Swyddog	Julian Thompson Hill
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	1. Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2020/21 (Atodiad 1) 2. Adroddiad Diweddarau ar Reoli Trysorlys 2021/22 (Atodiad 2)

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2020/21 (Atodiad 1) yn sôn am weithgarwch buddsoddi a benthycia'r Cyngor yn ystod 2020/21. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa economaidd ar yr adeg honno ac yn dangos sut y cydymffurfiodd y Cyngor â'i Ddangosyddion Darbodus. Mae'r Adroddiad Diweddarau ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn darparu gwybodaeth am weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor hyd yma yn 2021/22.
- 1.2 Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor. Pob blwyddyn mae oddeutu £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor. Mae'r benthyciad sydd gan y Cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2021 yn £235 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.95%. Mae ganddo hefyd £17.8 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.003%.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Ar 27 Hydref 2009 cytunodd y Cyngor y dylai'r gwaith o lywodraethu gweithgareddau Rheoli Trysorlys gael ei archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhan o'r rôl hon yw cael diweddariadau am weithgarwch Rheoli Trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac adolygu Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2020/21 sydd ynghlwm.
- 2.2 **Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
 - 2.2.1 Bydd y tîm Rheoli Trysorlys yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â'r amserlen isod:

Pwyllgor	Dyddiad:	Teitl yr Adroddiad	Cynnwys yr Adroddiad
Llywodraethu ac Archwilio	Ionawr	Diweddariad Rheoli Trysorlys	- Amgylchedd allanol - Risgiau - Gweithgaredd - Rheolaethau - Gweithgarwch i ddod
Llywodraethu ac Archwilio	Ionawr	Strategaeth Rheoli Trysorlys	- Polisi - Strategaeth - Dangosyddion Darbodus
Y Cyngor	Chwefror	Strategaeth Rheoli Trysorlys	Fel yr uchod
Llywodraethu ac Archwilio	Gorffennaf	Diweddariad Rheoli Trysorlys	Fel y Diweddariad Rheoli Trysorlys uchod
Llywodraethu ac Archwilio	Gorffennaf	Adolygiad Rheoli Trysorlys	- Adolygiad o weithgarwch Rheoli Trysorlys yn ystod y flwyddyn flaenorol
Y Cabinet	Medi	Adolygiad Rheoli Trysorlys	Fel yr uchod

2.2.2 Mae Rheoli Trysorlys yn faes cymhleth sy'n cymryd amser i'w ddeall yn llwyr, a darperir diweddariadau rheolaidd. Felly ystyriwyd bod cyflwyno'r diweddariadau hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hytrach na'r Cyngor yn fwy priodol oherwydd bod modd neilltuo'r amser a'r ymrwymiad angenrheidiol i'r maes hwn.

2.2.3 Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gael lefel benodol o ddealltwriaeth yn y maes hwn a chaiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau rheolaidd. Bydd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd, hefyd yn darparu sesiwn hyfforddi i aelodau cyn bo hir, er mwyn trafod y meysydd hyn yn fwy trylwyr.

2.2.4 Mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Deall y Dangosyddion Darbodus
- Deall effaith benthyca ar y sefyllfa refeniw
- Deall y cymhellion ehangach sy'n cael effaith ar weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor
- Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd darbodus mewn perthynas â'i weithgarwch Rheoli Trysorlys

3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau yn nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2020/21 a'i chydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2020/21 (Atodiad 1).

3.2 Bod aelodau'n nodi'r Adroddiad Diweddarau ar Reoli Trysorlys (Atodiad 2) sy'n manylu ar y perfformiad hyd yma yn 2021/22.

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Diben yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol (Atodiad 1) yw:

- Cyflwyno manylion am gyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn 2020/21
- Adrodd am oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys
- Cadarnhau cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus

4.3 Mae'r Adroddiad Diweddarau ar Reoli Trysorlys (Atodiad 2) yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Amgylchedd economaidd allanol
- Risgiau
- Gweithgarwch
- Rheolaethau
- Gweithgarwch i ddod

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu i'r Cyngor roi adnoddau ychwanegol i wasanaethau eraill y Cyngor.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Amherthnasol.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1 Dylai cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn benodol, ystyriaeth briodol i effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb â'u heffaith wedi'i hasesu'n briodol a strategaethau dyled a buddsoddiad hirdymor (rheoli trysorlys). Mae egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd eisoes wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.

- 7.2 Yng nghyd-destun rheoli trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar effeithiau hirdymor penderfyniadau buddsoddi a benthyca, gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hirdymor, yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Llesiant.

- 7.3 Mae adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gynnwys yn Atodiad 3, ac mae'n dangos sut y mae Strategaeth Rheoli Trysorlys effeithlon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Mae rheoli trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian parod, felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau

priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Rheoli Trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac i adolygu Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol.

9.3 Ym mis Hydref 2017 cymeradwyodd y Cyngor y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 i 2022. Mae pob cynnig newydd wedi'i ystyried yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys am ei bod yn hanfodol bod gan y Cyngor swyddogaeth rheoli trysorlys gadarn ac effeithiol i danategu'r buddsoddiad a'r holl weithgareddau eraill.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo'i hun yn risg, ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau hyn yn gyfan gwbl. Caiff strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y Cyngor eu harchwilio'n flynyddol ac mae adolygiad yr archwiliad mewnol diwethaf yn gadarnhaol heb unrhyw fater sylweddol yn codi.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys, sy'n pennu'r gofyniad i'r Cyngor baratoi'r wybodaeth rheoli trysorlys ddiweddaraf yn rheolaidd a pharatoi adroddiad blynyddol ar weithgarwch y trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL

ANNUAL TREASURY MANAGEMENT REPORT 2020/21

Steve Gadd
Head of Finance & Property

CONTENTS

Section	Title
1	Background
2	Economic Background
3	Borrowing Activity
4	Investment Activity
5	Compliance with Prudential Indicators
6	Money Laundering Update
	Annex A - PWLB borrowing rates and UK Money Market rates
	Annex B – Compliance with Prudential Indicators 2020/21
	Annex C – Glossary

1. Background

- 1.1 The Council's treasury management activity is underpinned by CIPFA's Code of Practice on Treasury Management ("the Code"), which requires local authorities to produce Prudential Indicators annually and a Treasury Management Strategy Statement on the likely financing and investment activity. The Code also recommends that members are informed of treasury management activities at least twice a year. Reports are presented twice a year to the Governance and Audit Committee which is the committee with responsibility for the scrutiny of the Council's treasury policy, strategy and activity, as well as the annual report made to cabinet and the report to full council for approval of the annual treasury strategy.
- 1.2 Treasury management is defined as: "The management of the local authority's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks."
- 1.3 The Council has borrowed and invested substantial sums of money and is therefore exposed to financial risks including the loss of invested funds and the revenue effect of changing interest rates. This report covers treasury activity and the associated monitoring and control of risk.

2. Economic Background

- 2.1 The coronavirus pandemic dominated 2020/21, leading to almost the entire planet being in some form of lockdown during the year. The start of the financial year saw many central banks cutting interest rates as lockdowns caused economic activity to grind to a halt. The Bank of England cut Bank Rate to 0.1% and the UK government provided a range of fiscal stimulus measures, the size of which has not been seen in peacetime.
- 2.2 Some good news came in December 2020 as two COVID-19 vaccines were given approval by the UK Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA). The UK vaccine rollout started in earnest; over 31 million people had received their first dose by 31st March.
- 2.3 A Brexit trade deal was agreed with only days to spare before the 11pm 31st December 2020 deadline having been agreed with the European Union on Christmas Eve.
- 2.4 The Bank of England (BoE) held Bank Rate at 0.1% throughout the year but extended its Quantitative Easing programme by £150 billion to £895 billion at its November 2020 meeting. In its March 2021 interest rate announcement, the BoE noted that while GDP would remain low in the near-term due to COVID-19 lockdown restrictions, the easing of these measures

means growth is expected to recover strongly later in the year. Inflation is forecast to increase in the near-term and while the economic outlook has improved there are downside risks to the forecast, including from unemployment which is still predicted to rise when the furlough scheme is eventually withdrawn.

3. Borrowing Activity

3.1 The table below shows the level of the Council's borrowing from the Public Works Loan Board (PWLB) at the start and the end of the year.

	Balance at 01/04/2020 £000	Maturing loans £000	Premature repayments £000	New Borrowing £000	Balance at 31/03/2021 £000
Fixed rate loans – Public Works Loan Board (PWLB)	228,097	8,091	0	0	220,006
Total borrowing	228,097	8,091	0	0	220,006

3.2 The Council has been accessing temporary borrowing from other local authorities at very low rates to cover short-term cash flow requirements.

3.3 As a result of this borrowing, the average rate on the Council's debt increased from 3.82% at 1 April 2020 to 3.95% at 31 March 2021.

3.4 Annex A shows how interest rates for borrowing have moved over the course of the year.

4. Investment Activity

4.1 The Council held cash balances of £17.8m at the end of 2020/21. These represent the Council's Balances and Reserves (after internal borrowing and working cash balances are accounted for) and also where money has been borrowed before capital expenditure is incurred.

4.2 The Welsh Government's Investment Guidance requires local authorities to focus on security (keeping the money safe) and liquidity (making sure the Council never runs out of cash) as the primary objectives of a prudent investment policy. The Council's aim was to achieve a return on investments in line with these principles. The return is important but is a secondary consideration and the priority is the security of the sums invested.

- 4.3 The table below shows the level of the Council’s investments at the start and the end of the year.

	Balance at 01/04/2020 £000	Investments Raised £000	Investments Repaid £000	Balance at 31/03/2021 £000
Investments	28,900	541,400	552,500	17,800

- 4.4 Security of capital remained the Council’s main investment objective. This was maintained by following the Council’s counterparty policy as set out in its Treasury Management Strategy Statement for 2020/21 which defined “high credit quality” organisations as those having a long-term credit rating of A- or higher if domiciled in the UK or a foreign country with a sovereign rating of AA+ or higher.

Unsecured Bank Deposits

- 4.5 Conventional bank deposits have become riskier because of a lower likelihood that the UK and other governments will support failing banks. As the Banking Reform Act 2014 was implemented in the UK from January 2015, banks were no longer able to rely on government bail-outs if they got into difficulty. They would be required instead to bail themselves out by taking a proportion of investors’ deposits to build up their capital. This new risk has been termed ‘bail-in’ risk and is potentially a greater risk to investors than the ‘bail-out’ risk of the past.
- 4.6 Given the increasing risk and continued low returns from short-term unsecured bank investments, the Council has only held a minimal amount of investments for short-term cash flow purposes and has placed a far greater emphasis on investing with the UK Government’s Debt Management Office and other local authorities in order to minimise these risks.

Credit Risk Management

- 4.7 Counterparty credit quality was assessed and monitored with reference to the following:
- credit ratings (minimum long-term counterparty rating of A- across rating agencies Fitch / S&P / Moody’s);
 - analysis of funding structure and susceptibility to bail-in;
 - credit default swap prices;
 - financial statements;
 - information on potential government support;
 - share prices.

Liquidity Management

- 4.8 In keeping with the WG's Guidance on Investments, the Council maintained a sufficient level of liquidity through the use of overnight deposits and instant access call accounts. The Authority uses purpose-built cash flow forecasting software to determine the maximum period for which funds may prudently be committed.

Yield

- 4.9 The Council sought to achieve the best return balanced against its objectives of security and liquidity. The UK Bank Rate remained at 0.1% for 2020/21. Short term money market rates also remained at very low levels which had a significant impact on investment income.
- 4.10 All investments made during the year complied with the Council's agreed Treasury Management Strategy, Prudential Indicators, Treasury Management Practices and prescribed limits. Maturing investments were repaid to the Council in full and in a timely manner.

5. Compliance with Prudential Indicators

- 5.1 The Council can confirm that it has complied with its Prudential Indicators for 2020/21, which were set in February 2020 as part of the Council's Treasury Management Strategy Statement. Details can be found in Annex B.
- 5.2 In compliance with the requirements of the CIPFA Code of Practice this report provides members with a summary report of the treasury management activity during 2020/21. None of the Prudential Indicators have been breached and a prudent approach has been taken in relation to investment activity with priority being given to security and liquidity over yield.

6. Money Laundering Update

- 6.1 The Council is alert to the possibility that it may become the subject of an attempt to involve it in a transaction involving the laundering of money. Accordingly, it has a Money Laundering Policy and maintains procedures for verifying and recording the identity of counterparties and reporting suspicions, and will ensure that relevant staff are properly trained. This policy is due to be reviewed and updated in view of new regulations.
- 6.2 The Section 151 Officer is the Money Laundering Reporting Officer with the Deputy Section 151 Officer as the Deputy. There haven't been any cases of money laundering reported since the start of Denbighshire to date and the risk to the Council is considered to be minimal.

Interest Rates 2020/21

Public Works Loan Board (PWLB) borrowing rates and UK Money Market rates during the year were:

Example PWLB Borrowing rates (The rate at which the Council could borrow money from the Government)

Start Date	Length of Loan		
	1yr %	19½-20 yrs %	49½-50 yrs %
01-Apr-20	2.09	2.73	2.52
30-Sep-20	1.96	2.71	2.60
31-Mar-21	0.99	2.34	2.19

Example Bank Rate, Money Market rates (The rate at which the Council could invest with banks)

Date	Bank Rate %	7-day Investment Rates %	1-month Investment Rates %	6-month Investment Rates %
01-Apr-20	0.10	0.00	0.11	0.59
30-Sep-20	0.10	-0.08	-0.08	-0.04
31-Mar-21	0.10	-0.08	-0.08	-0.01

Compliance with Prudential Indicators 2020/21

1 Estimated and Actual Capital Expenditure

- 1.1 This indicator is set to ensure that the level of proposed investment in capital assets remains within sustainable limits and, in particular, to consider the impact on the Council Tax and in the case of the HRA, housing rent levels.

Capital Expenditure	2020/21 Estimated February 2020 £000	2020/21 Revised February 2021 £000	2020/21 Outturn March 2021 £000
Non-HRA	43,668	42,391	37,513
HRA	19,172	14,876	9,734
Total	62,840	57,267	47,247

- NB The figures for the February estimate were produced early in January but due to the nature of capital expenditure, some of the major schemes have slipped and this expenditure will now be incurred in 2021/22.

2 Estimated and Actual Ratio of Financing Costs to Net Revenue Stream

- 2.1 This is an indicator of affordability and demonstrates the revenue implications of capital investment decisions by highlighting the proportion of the revenue budget required to meet the borrowing costs associated with capital spending. The financing costs include existing and proposed capital commitments.

Ratio of Financing Costs to Net Revenue Stream	2020/21 Estimated February 2020 £000	2020/21 Revised February 2021 £000	2020/21 Outturn March 2021 £000
Financing Costs	13,681	13,824	13,854
Net Revenue Stream	208,301	208,301	208,301
Non-HRA Ratio	6.57%	6.64%	6.65%
Financing Costs	6,352	6,432	5,836
Net Revenue Stream	16,527	16,258	16,258
HRA Ratio	38.43%	39.56%	35.90%

3 Capital Financing Requirement

- 3.1 The Capital Financing Requirement (CFR) measures the Council's underlying need to borrow for a capital purpose. In order to ensure that over the medium term net borrowing will only be for a capital purpose, the Council ensures that net external borrowing does not, except in the short term, exceed the CFR in the preceding year plus the estimates of any additional CFR for the current and next two financial years. Performance during 2020/21 is demonstrated in the following table:

Capital Financing Requirement	2020/21 Estimated February 2020 £000	2020/21 Revised February 2021 £000	2020/21 Outturn March 2021 £000
Non-HRA	229,422	221,751	215,700
HRA	80,173	75,147	68,611
Total	309,595	296,898	284,311
Borrowing	266,506	250,006	235,006

NB The outturn figures are taken from the pre-audited Statement of Accounts 2020/21 so they may be subject to change.

